Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

☎ 08442 64 06 70
🖷 08442 64 06 80
www.olderpeoplewales.com

Cambrian Buildings
Mount Stuart Square
Cardiff CF10 5FL

Adeiladau Cambrian
Sqwâr Mount Stuart
Caerdydd CF10 5FL

Mark Drakeford AC
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru
5ed Llawr
Tŷ Hywel
CAERDYDD
CF99 1NA

17 Ebrill 2015

Annwyl Weinidog

Hysbysiad ysgrifenedig ffurfiol a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006: Angen Rhagor o Wybodaeth

Rwy'n ysgrifennu atoch i ymateb i'ch llythyr, dyddiedig 3 Chwefror 2015, a oedd yn cynnwys ymateb ffurfiol Llywodraeth Cymru fy Adolygiad statudol o Gartrefi Gofal.

O dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006, os nad ydw i'n fodlon â'r ymateb a ddarparwyd, naill ai'n llwyr neu'n rhannol, gallaf ofyn am ragor o wybodaeth.

Nid oedd strwythur a chynnwys eich ymateb yn darparu'r wybodaeth sydd ei hangen arnaf i asesu a oes digon o gamau gweithredu'n cael eu cymryd neu eu cynllunio i sicrhau'r canlyniadau a nodir yn fy Adolygiad. Felly, rwy'n gofyn am ragor o wybodaeth sy'n ymateb yn benodol i bob Gofyniad Gweithredu lle mae Llywodraeth Cymru wedi'i nodi fel y corff arweiniol. Bydd hyn yn galluogi i mi asesu a yw'r camau gweithredu a nodwyd yn ddigonol i fynd i'r afael â'r canlyniadau a ddymunir.

Dylech ddarparu'r wybodaeth hon i mi erbyn **dydd Gwener 15 Mai 2015**, yn unol â'r amserlenni sydd wedi'u pennu yn Neddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006.

Iechyd ar Waith
Health at Work

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Mae Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006 yn mynnu fy mod yn cadw cofrestr o'r ymatebion i fy Ngofynion Gweithredu ac felly bydd yr holl ymatebion gan y cyrff sy'n rhan o fy Adolygiad yn cael eu cyhoeddi ar fy ngwefan, ynghyd â dadansoddiad o bob ymateb. Byddaf hefyd yn cyhoeddi sylwebaeth gyffredinol ynghylch a ydw i o'r farn, ar sail y wybodaeth bellach a ddaw i law, y bydd y newid rwyf yn disgwyl ei weld ar ran pobl hŷn yn cael ei gyflawni. Yn ogystal â chyhoeddi'r wybodaeth hon ar fy ngwefan, byddaf hefyd yn gwneud datganiad cyhoeddus ffurfiol, mewn perthynas â golwg gyffredinol o'r camau sy'n cael eu cymryd a'r camau sydd wedi cael eu cynllunio gan y cyrff unigol sy'n rhan o'r Adolygiad.

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir

Sarah Rochira

Sarah Rochira
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru